Wales Arts Health & Well-being Network
Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru

# Astudiaeth Effaith WAHWN

# 2025 - 2026

Fel rhan o'n Cytundeb Cyllid Amlflwyddyn gyda Chyngor Celfyddydau Cymru byddwn yn rhannu effaith ein gwaith, yn gysylltiedig â'n targedau, ar draws 6 maes blaenoriaeth. Caiff hyn ei ddiweddaru bob chwe mis.







# **Hunanasesu**
# 30 Mis Medi 2025

| | | |
|---|---|---|
| **Iechyd Ariannol** | | Rydym wedi cael ein hasesu gan ein cyfrifwyr adrodd fel rhywun sydd 'mewn sefyllfa gref'. |
| **Iechyd Gweithredol** | | Cyrhaeddwyd nifer o dargedau 2025-2026 yn ystod y chwe mis cyntaf ac mae ar y trywydd iawn i gyrraedd y rhan fwyaf o'r holl dargedau erbyn diwedd y flwyddyn. |

# Crynodeb

Yn ystod 2025–2026, cryfhaodd WAHWN ei rôl yn sylweddol fel cysylltydd cenedlaethol Cymru ar gyfer y celfyddydau, iechyd a llesiant, gan ehangu ein haelodaeth i **dros 1,200 o ymarferwyr** a phartneriaid ar draws meysydd diwylliant, iechyd, gofal a pholisi. Roedd eleni'n gyfnod o dwf strategol, gyda chynnydd o ran cyrhaeddiad, cydweithio mwy dwys ar draws sectorau a gosod ein hunain mewn safle cryf ar gyfer dylanwadu yn y dyfodol.

Drwy gyfuniad o gymorth ar lawr gwlad a gwaith partneriaeth ar lefel system, creodd WAHWN gyfleoedd newydd i ymarferwyr, cefnogodd ddatblygiad ac amrywiaeth yn y gweithlu, a chyfrannodd at sgyrsiau cenedlaethol ar atal a llesiant. Roedd Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd yr Ymddiriedolwyr yn Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Amwythig yn canolbwyntio ar y cwestiwn "Ble sydd angen i ni fod ymhen tair blynedd?" oedd yn gymorth i finiogi ein cyfeiriad strategol ac uchelgais.

Ar draws polisi, ymarfer seiliedig ar leoedd a datblygu proffesiynol, mae adnabyddiaeth pobl o WAHWN fel cyfryngwr dibynadwy wedi cynyddu — yn cysylltu pobl, llunio syniadau a dangos gwerth y celfyddydau a diwylliant fel rhan o system iechyd ataliol, gyfartal i Gymru.

# Prif Gyflawniadau 2025–2026

## Cynefin

- Sicrhawyd cyllid Co Lab Cymunedau Creadigol AHRC – Dyfarniadau Polisi, ar gyfer 'Cynefin', mewn partneriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Swyddfa Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chyngor Celfyddydau Cymru.
- Mae'r prosiect yn gosod y celfyddydau a diwylliant yn wasanaeth cyhoeddus rheng flaen, sy'n cyfrannu at Gymru fwy iach, mwy ataliol ac yn cryfhau'r sail dystiolaeth ar gyfer diwylliant o fewn polisi cyhoeddus.

## Camu i Mewn

- Sicrhawyd cyllid a phartneriaethau newydd ar gyfer Camu i Mewn, rhaglen amrywio'r gweithlu WAHWN.
- Cefnogir 12 o ymarferwyr Cymraeg eu hiaith ac ymarferwyr â nodweddion gwarchodedig i feithrin sgiliau, hyder a llwybrau cliriach i mewn i sector y celfyddydau, iechyd a llesiant. Mae'r rhaglen yn parhau i fynd i'r afael â rhwystrau systemig ac yn cefnogi gweithlu mwy cynrychioliadol yn y dyfodol.

## Hyfforddi, Dysgu a Rhwydweithio

Cwrs DPP Cyflwyniad i'r Celfyddydau ac Iechyd

- Comisiynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sir Conwy i gynllunio a chyflwyno cwrs DPP Cyflwyniad i'r Celfyddydau ac Iechyd i ymarferwyr yng Nghonwy.
- "*Rhyfeddol o addysgol gyda gwybodaeth glir, ddefnyddiol yn cael ei chyflwyno gan bobl sydd â gwir angerdd a gwybodaeth drylwyr am gynnig cyfleoedd yn y gymuned.*" (hyfforddai)

**Cynhadledd GWEHYDDU**

- Daeth 320 o arweinwyr celfyddydau, iechyd, gofal a pholisi i gynhadledd genedlaethol GWEHYDDU, a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Phrifysgol Wrecsam, ac a noddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Roedd y digwyddiad yn cynnig llwyfan uchel ei broffil ar gyfer dysgu, cydweithio a meithrin perthnasoedd ar draws sectorau.
- "*Diolch gymaint am yr egni, y weledigaeth a'r arloesi… Cyflawnwyd y cyfan mewn awyrgylch o dawelwch a charedigrwydd. Roedd llawer o lawenydd a gobaith yn cael ei gynnig, ond mae pawb wedi dod oddi yno … yn deall y bydd angen mwy o eiriol a chydweithio er mwyn cyflawni potensial y sector*" (cynrychiolydd)

# Prif Gyflawniadau 2025–2026

**Parhad**

## Hyfforddi, Dysgu a Rhwydweithio

Parhad

**Grwpiau Dysgu Cymheiriaid**

- Cafodd dros 150 o ymarferwyr eu cefnogi drwy grwpiau dysgu cymheiriaid a hwyluswyd, oedd yn cynnig mannau diogel, myfyrgar ar gyfer dysgu a rennir, datblygu sgiliau a datrys problemau traws-ddisgyblaethol.
- “*Dyma grŵp cymorth gwych!... Unigryw i’r Celfyddydau ac Iechyd, ond byddai mor werthfawr i feysydd rhaglen eraill! Edrych ymlaen at y sesiwn ymhen pythefnos.*”

**Cyfarfodydd Rhwydwaith Misol**

- Cyfranogodd 529 o aelodau dros 12 o gyfarfodydd rhwydwaith misol.
- Roedd y sesiynau hyn yn cefnogi ymgysylltu â pholisi ac ymgynghoriadau strategaeth, lledaenu arfer da a meithrin perthnasoedd ar draws y sectorau iechyd, diwylliant a chymunedol.
- “*Cyfarfod gwirioneddol addysgiadol a dewis gwych o siaradwyr. Diolch*”.
- “*Defnyddiol iawn cael clywed am waith pwysig mewn polisi a strategaeth mewn ffordd sy’n ystyrlon i mi a fy ngwaith*”.
- “*Diolch am greu i rannu ein gwaith a’n hymarfer*”.

# Cydnabyddiaethau

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Ymddiriedolwyr WAHWN
- Staff a gweithwyr llawrydd WAHWN
- Ffrindiau o WAHWN

# Cysylltwch

**info@wahwn.cymru**

www.wahwn.cymru

facebook.com/wahwn

instagram.com/wahwn

bluesky.app/wahwn

x.com/wahwn

youtube.com/wahwn

**© Wales Arts Health & Well-being Network**
WAHWN Limited is a company limited by guarantee and registered Charity.
Company Number: **14111464**
Charity No. **1209241**
Registered Address:
**34 Dewing Avenue, Manorbier, Pembrokeshire, SA70 7TS**